**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM/PO/00438/25

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Medi 2025

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Gorffennaf 2025 yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2025.

Rwy'n croesawu'r cyfle i drafod cynnydd o ran fy mlaenoriaethau ac rwy'n falch bod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol ichi.

Nodaf y meysydd o ddiddordeb a cheisiadau'r Pwyllgor am eglurhad ar feysydd blaenoriaeth. Gweler yr eglurhad hwn yn Atodiad A.

Yn Atodiad B, mae fy Ysgrifenyddion Cabinet wedi darparu ymateb atodol sy'n adlewyrchu'r cwestiynau ehangach hynny a ofynnwyd a oedd y tu hwnt i gwmpas y cyfarfod.

Edrychaf ymlaen at ein cyfarfod nesaf a gynhelir.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A – Manylion ychwanegol yn ymwneud â phob un o'r pedair blaenoriaeth:**

**Eich Pedair Blaenoriaeth / Cyflawni:**

***Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gyfeirio at ddiwygio geiriad eich pedair blaenoriaeth ac mae'n ymddangos bod y cynnig a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf yn cadarnhau hynny. Yng ngoleuni hyn, a allech chi egluro beth yw eich pedair blaenoriaeth nawr ac a yw'r newidiadau o ran geiriad yn adlewyrchu awydd i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl eu deall, fel yr awgrymoch chi, neu a ydynt yn cynrychioli newid mwy sylweddol mewn ffocws, er enghraifft lleihau'r flaenoriaeth a roddir i safonau addysgol?***

***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Uned Gyflawni Swyddfa'r Cabinet, gan gynnwys nifer y bobl sy'n gweithio yn yr Uned.***

***A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi 'dangosfyrddau cyhoeddus' gyda data perfformiad sy'n cael eu defnyddio gan Weinidogion i wneud eu penderfyniadau?***

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf sef cyflawni Gwell Iechyd, Gwell Trafnidiaeth, Mwy o Gartrefi a Mwy o Swyddi. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi sylw ychwanegol i wneud yn siŵr bod newid yn digwydd o ran y pethau hynny y mae pobl Cymru wedi dweud wrthyf sydd fwyaf pwysig iddynt. Yn ystod yr amser sy'n weddill ar gyfer y llywodraeth hon, mae'r blaenoriaethau yn ymwneud â chanolbwyntio ein hymdrechion ar gamau gweithredu y gallwn ni wirioneddol eu monitro a'u trawsnewid. Mae'n ymwneud â nodi newid gwirioneddol a neilltuo ymdrechion ychwanegol i sicrhau bod y gwaith cyflawni yn digwydd.
Rydym yn parhau i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â'n huchelgeisiau tymor hwy i wella safonau addysgol, lliniaru effeithiau newid hinsawdd, cyflawni prosiectau seilwaith mawr a datblygu ein heconomi.

Mae creu ein Swyddfa Cabinet a'n Huned Gyflawni yn ategu ein meddylfryd 'llywodraeth gyfan' ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Uned Gyflawni yn dîm bach sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet ehangach. Mae gan y Swyddfa naw aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys pump sy'n canolbwyntio ar Gyflawni.

Mae adrannau Gweinidogol a'r timau sy'n rhan o'r rhain yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflawni'r blaenoriaethau.

Mae'r Uned Gyflawni yn chwarae rôl benodol, gan gynrychioli trosolwg, her a chymorth parhaus y Prif Weinidog yn hytrach na chynyddu adnoddau o fewn adrannau. Yn ei hanfod felly, mae'n gweithredu gyda nifer cyfyngedig o staff.

Gan weithio'n uniongyrchol gyda'r Gweinidog Cyflawni, mae'r Uned Gyflawni yn cydgysylltu gwaith ar draws y llywodraeth i gynorthwyo'r Ysgrifenyddion Cabinet i gyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig ac integredig.

Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau i gynhyrchu dangosfyrddau ychwanegol ar gyfer yr Uned Gyflawni gan y bydd yr ystadegau swyddogol a ddefnyddir gan y tîm yn parhau i gael eu cyhoeddi drwy sianeli a meysydd polisi presennol.

**<u>Rhoi hwb i safonau addysgol:</u>**
***I ba raddau y mae tystiolaeth yn awgrymu bod safonau addysgol wedi gwella mewn ysgolion a cholegau dros y flwyddyn ddiwethaf, neu yn nhymor y Senedd hon hyd yn hyn?***

Ar 14 Awst 2025, cyhoeddwyd canlyniadau Safon UG a Safon Uwch ar gyfer 2024/25. Dangoswyd bod y system addysg yn symud i'r cyfeiriad cywir gyda gwelliannau nodedig ers canlyniadau 2019. Yn yr un modd, mae ein canlyniadau TGAU a gyhoeddwyd ar 21 Awst 2025 yn dangos gwelliannau ar draws ystod yr holl brif raddau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, gyda'r graddau uchaf yn uwch o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac yn sylweddol uwch o gymharu â 2019.

Mae ein trydydd datganiad ystadegol blynyddol ar gyrhaeddiad darllen a rhifedd ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9 yn dangos gwelliannau arwyddocaol. Mae'r cyrhaeddiad darllen Saesneg ym Mlwyddyn 3 wedi cyrraedd ei lefel uchaf a gofnodwyd, gan nodi tuedd ar i fyny barhaus.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Medr wybodaeth am ganlyniadau prentisiaethau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2023 a mis Gorffennaf 2024 sy'n dangos yn glir bod cyfradd llwyddiant gyffredinol prentisiaethau wedi cynyddu i 74% ym mlwyddyn academaidd 2023/24.

Trwy'r Cytundeb Partneriaeth Strategol, byddwn yn parhau i gydweithio mewn modd tryloyw ar draws y sector addysg a llywodraeth leol er mwyn atgyfnerthu ein hymrwymiad parhaus i lythrennedd, rhifedd, presenoldeb a llesiant dysgwyr.

***Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall a yw trosglwyddo swyddogaethau gwella ysgolion gweithredol yn ôl i awdurdodau lleol, ac i ffwrdd o'r consortia addysg rhanbarthol, drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion, yn dangos nad yw gweithio rhanbarthol dros y degawd diwethaf neu fwy wedi cael yr effaith a ddymunwyd.***

Nododd y llythyr o dan y pennawd '**Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion**', a gyhoeddwyd yn 2024, fod y mwyafrif o Awdurdodau Lleol o blaid ystyried ystod o opsiynau ar gyfer rheoli cymorth Gwella Ysgolion rhanbarthol.

Yn rhan o'r adolygiad hwnnw, mynegodd arweinwyr ysgolion ac Awdurdodau Lleol eu cefnogaeth gref i gydweithio ar draws ysgolion, clystyrau ac awdurdodau lleol, gan symud trefniadau gwella ysgolion i lefel fwy lleol.

Er bod y model Consortia Rhanbarthol hanesyddol wedi cynnig cymorth i'n trefniadau gwella ysgolion, roedd yr adolygiad yn cydnabod bod diwygiadau addysg mwy diweddar wedi arwain at newidiadau newydd a sylweddol ar draws y sector.

Mae'r Rhaglen Partneriaeth Gwella Ysgolion yn dangos ein gallu i wrando a datblygu ein dull gweithredu ar gyfer diwallu anghenion y sector.

Fodd bynnag, mae disgwyliad clir o hyd na ddylai ein hawdurdodau lleol ddychwelyd i 22 o ffyrdd gwahanol o weithio. Rydym yn disgwyl i'r holl bartïon weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth er mwyn ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd presennol sy'n wynebu'r sector addysg yng Nghymru.

***I ba raddau y mae heriau ynghylch presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn llesteirio ymdrechion i wella safonau a chanlyniadau addysgol, a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn?***

Rydym yn cydnabod y cysylltiad cryf sy'n bodoli rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad a phwysigrwydd bod plant yn mynychu'r ysgol ac yn ymwneud â'u dysgu a'r cyfleoedd ehangach sydd ar gael iddynt.

Fodd bynnag, fel rhannau eraill o'r DU ac yn wir yn rhyngwladol, mae Cymru wedi gweld newid agwedd tuag at bwysigrwydd presenoldeb ysgol rheolaidd ymhlith rhai teuluoedd.

Ym mis Mai, cyhoeddodd Estyn ddiweddariad ar ei adroddiad thematig ynghylch presenoldeb a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cynnwys cyfeiriadau at lefelau presenoldeb cyfredol, gwybodaeth am nifer yr arolygiadau sydd wedi'u cynnal hyd yma eleni lle cafwyd argymhelliad i wella presenoldeb, a diweddariadau i'r astudiaethau achos.  Byddwn yn ymateb i'r adroddiad hwnnw sydd wedi'i ddiweddaru yn ystod yr hydref.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod presenoldeb cyfartalog ar draws y flwyddyn academaidd 2024/25 yn 90.9%, i fyny o 90.2% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er bod y gwelliant hwn yn ddangosydd cadarnhaol, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol bod cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Rhwng 2024 a 2026, bydd cyllid gwerth £8.8m wedi'i fuddsoddi i wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Yn ystod 2025/26, byddwn hefyd yn buddsoddi cyllid gwerth bron i £11m mewn Ysgolion Bro i gynorthwyo Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a sicrhau eu bod ar gael i feithrin partneriaethau cadarnhaol, cynnig cymorth wedi'i deilwra, a darparu un pwynt cyswllt i deuluoedd, ysgolion ac asiantaethau partner sy'n ceisio gwella presenoldeb.

***I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hamcan yn y Rhaglen Lywodraethu o sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau - a blaenoriaeth y Prif Weinidog ei hun o sicrhau bod gan bob teulu (a phob plentyn, gellid tybio) y cyfle i lwyddo?***

O ran cyrhaeddiad addysgol, mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn parhau i fod yn bryder sylweddol. Roedd y mater hwn yn bodoli cyn y pandemig ac mae ei ddifrifoldeb wedi cynyddu ers hynny. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn parhau i fod yn hollbwysig o ran ein hymrwymiad i sicrhau safonau uchel mewn ysgolion, gan hefyd hyrwyddo dyheadau pob dysgwr.

Mae'r gwaddol yn sgil cyni, y pandemig, a'r argyfwng costau byw yn parhau i effeithio ar deuluoedd ac ysgolion. Mae llawer o ysgolion yn ymdopi â gofynion cynyddol a phwysau ar adnoddau, ac mae teuluoedd yn wynebu pwysau ariannol dyddiol a all effeithio ar allu dysgwyr i ymwneud yn llawn â'u haddysg.  Rydym felly wedi ymateb yn gyflym i ddarparu, yn llwyddiannus, prydau ysgol am ddim i bob disgybl oed cynradd.  Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gadw arian mawr ei angen ym mhocedi teuluoedd. Yn y tymor hir, bydd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol.

Mae tegwch yn parhau i fod wrth wraidd ein dull gweithredu. Rydym yn defnyddio'r holl bwerau ac adnoddau sydd ar gael er mwyn helpu dysgwyr difreintiedig a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer diwygio'r Cwricwlwm i helpu i wella safonau ac annog dyheadau.

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer helpu dysgwyr difreintiedig. Yn ystod 2025/26, gwnaethom ymrwymo cyllid gwerth £128m er mwyn helpu dysgwyr difreintiedig a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg.

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi helpu mwy na 88,000 o deuluoedd, gan ddyrannu hyd at £200 fesul dysgwr i helpu â'r costau hynny sy'n gysylltiedig â gwisgoedd ysgol ac offer hanfodol.

Yn ogystal â chymorth ariannol, rydym yn treialu sawl menter i geisio deall y rhwystrau y mae ysgolion yn eu hwynebu, a mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys:

- Diogelu Rhag Tlodi: Mae cynllun peilot sy'n cynnwys chwe chlwstwr o ysgolion ac a gyflawnir gan yr elusen Children North East yn helpu ysgolion i nodi materion o ran stigma a chynhwysiant sy'n gysylltiedig â thlodi a'u helpu i fynd i'r afael â nhw. Mae'n cynnwys hyfforddiant, archwiliadau cymunedol, a chynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar ddysgwyr.

- Pencampwyr Cyrhaeddiad: Mae'r cynllun peilot hwn yn hwyluso prosesau rhannu strategaethau effeithiol rhwng arweinwyr ysgolion drwy fentora cymheiriaid, gan helpu i nodi pa ddulliau gweithredu sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr difreintiedig.

Trwy gyllid wedi'i dargedu a rhaglenni sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, rydym yn darparu cymorth i helpu i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr heriau'n gymhleth ac yn barhaus, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i barhau â'r gwaith hwn mewn partneriaeth ag ysgolion ac awdurdodau lleol.

Bydd ymchwil a gomisiynwyd i adolygu'r ffordd yr ydym yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr a'u heffaith ar ganlyniadau yn cael ei defnyddio yn y dyfodol ar gyfer cyllid a chymorth wedi'u targedu.

***I ba raddau ydych chi'n ystyried bod y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus hyd yn hyn, o ystyried yr anghysondebau ymddangosiadol yn y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn dehongli Deddf a Chod 2018, a'r gostyngiad o 44% yn nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY ers cyflwyno'r system newydd?***

Bydd 1 Medi 2025 yn nodi penllanw ar gyfnod gweithredu pedair blynedd o hyd ar y system ADY, a gynlluniwyd i greu dull gweithredu mwy cynhwysol ac sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr er mwyn helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru.

Mae awdurdodau lleol ac ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol i roi'r system ADY ar waith. Mae dros 30,000 o Gynlluniau Datblygu Unigol statudol wedi'u llunio drwy brosesau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae ymarferwyr yn parhau i weithio'n agos gyda dysgwyr a theuluoedd i ddeall anghenion a sicrhau darpariaeth briodol.

Ers 2020, rydym wedi cynyddu'n sylweddol y buddsoddiad ar gyfer ADY. Mae hyn yn cynnwys cyllid grant refeniw gwerth dros £150m i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i gynorthwyo'r gwaith gweithredu, cynyddu adnoddau mewn ysgolion ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol. Mae rhai enghreifftiau ardderchog o arferion da ar waith mewn ysgolion ledled Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi buddsoddi cyllid cyfalaf gwerth mwy na £170m drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer cyfleusterau gwell i ddysgwyr ag ADY.

Ers dechrau gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, rydym wedi gweld gostyngiad parhaus yn nifer cyffredinol y dysgwyr a nodir bod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ADY mewn ysgolion a gynhelir. Mae llawer o'r gostyngiad hwn yn sgil dysgwyr a nodwyd yn flaenorol yn rhai i'w 'Gweithredu gan yr Ysgol' yn y system AAA, a oedd yn adlewyrchu'r lefel isaf o gymorth. Mae'r newid hwn, law yn llaw â dileu'r categori 'Anawsterau Dysgu Cyffredinol' o gyfrifiad 2023, ynghyd â'r cyllid i gynnal dull gweithredu mwy cynhwysol ar gyfer dysgu mewn ysgolion, wedi arwain at ailasesu'r angen a newid wrth adrodd data.

Rydym yn mynd i'r afael yn rhagweithiol ag anghysondebau o ran dehongli a gweithredu'r system ADY, gan gynnwys nodi plant ag ADY. Mae adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol wedi'i gwblhau, ac ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r themâu allweddol i'w gwella.

Mae'r pwyslais yn awr ar ddatblygu, gyda phartneriaid cyflawni, ddatrysiadau ymarferol a chymesur. Yn ddiweddarach eleni, bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu arfaethedig er mwyn parhau i wella'r gwaith cyflawni.

Mae Estyn yn parhau i fonitro'r cymorth ar gyfer dysgwyr drwy arolygiadau ac adolygiadau thematig. Mae eu canfyddiadau'n dangos, lle y mae gwaith diwygio wedi'i weithredu'n llwyddiannus, bod dysgwyr yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn. Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gydag awdurdodau lleol i ddeall y rhwystrau o ran cyflawni a mynd i'r afael â nhw, gan sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ffynnu.

<u>**Darparu mwy o dai ar rent cymdeithasol:**</u>
***Beth yw'r tebygolrwydd o gyrraedd y targed o 20,000 ar gyfer cartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu yn ystod tymor y Senedd hon?***

Mae ein targed uchelgeisiol yn ysgogi'r cyflenwad uchaf erioed o gartrefi yng Nghymru. Ni fyddwn byth yn rhoi'r gorau i anelu at gyrraedd y cartref rhif 20,000 hyd nes ddiwrnod olaf y llywodraeth hon ac rydym wedi ein sicrhau o hyd bod cynlluniau ar ddod i adeiladu miloedd o gartrefi.

Er ein bod yn cydnabod yr her o gyflawni'r targed hwn erbyn diwedd tymor y Senedd, rydym yn hyderus o hyd y gellir gwireddu ein hymrwymiad i gyflawni 20,000 o gartrefi.

<u>**Swyddi Gwyrdd:**</u>
***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach ar y cam o ehangu'r iaith mewn perthynas â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer creu 'swyddi gwyrdd' i ganolbwyntio ar greu 'mwy o swyddi', ac a yw hyn yn awgrymu newid pwyslais.***

Fy mlaenoriaeth yw cyflawni. Mae 'mwy o swyddi' yn adlewyrchu fy ymrwymiad i sicrhau swyddi da i bobl ledled Cymru mewn **ffyrdd sy'n hyrwyddo economi gryfach, tecach a gwyrddach**. Mae swyddi gwyrdd yn parhau i fod yn rhan ganolog o'r uchelgais honno.

Er nad yw'r flaenoriaeth wedi newid o ran yr hyn y canolbwyntir arno, mae'r ffordd y caiff ei disgrifio wedi esblygu'n naturiol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn glir ac yn eglur.

**<u>Cysylltu Cymunedau:</u>**
***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut mae buddsoddiad y DU mewn seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer 'trawsnewid ein rheilffyrdd'.***

Ni lwyddodd Llywodraeth flaenorol y DU i gyflawni gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Roedd yr heriau yn cynnwys canslo trydaneiddio'r llinellau i Abertawe, diffyg cyllid ar gyfer gwaith trydaneiddio yn y Gogledd a'r dirywiad a achoswyd yn sgil y llai o gyllid ar gyfer Network Rail yng Nghymru.

Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi cydnabod bod y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru wedi'i danariannu. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar o gyllid gwerth £445m ar gyfer gwella'r seilwaith rheilffyrdd, a hynny yn gam cyntaf tuag at fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Adolygiad Gwariant yn golygu y gallwn yn awr gynllunio'n briodol ar gyfer dyfodol y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth y DU i ddatblygu a chyflawni'r gwelliannau mawr eu hangen ar ein rheilffyrdd a fydd yn sicrhau mwy o wasanaethau a gwasanaethau wedi'u gwella i deithwyr ledled Cymru.

**Atodiad B - Ymateb Atodol**

**Nodwch fod yr wybodaeth ychwanegol hon yn cael ei darparu mewn ymateb i feysydd o ddiddordeb ehangach y Pwyllgor - y tu hwnt i gwmpas y fforwm gwreiddiol.**

***Yn dilyn pryderon a godwyd gan Bwyllgorau yn ystod gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025–26 ynghylch cyllid hirdymor gwasanaethau gofal ataliol a lliniarol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr asesiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i fesur yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar y gwasanaethau hyn a gwasanaethau eraill y GIG. Beth sy'n cael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?***

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Fframwaith Comisiynu newydd ar gyfer Hosbisau i Gymru er mwyn creu model ariannol mwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Yn rhan o Gyfnod 1, mae manyleb llywodraethiant a sicrwydd newydd wedi'i chwblhau, a'r bwriad yw y bydd contractau gyda hosbisau unigol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo i Gyfnod 2, byddwn yn datblygu ac yn mabwysiadu'r Fframwaith Comisiynu newydd ar gyfer Hosbisau, gan lunio canllawiau gweithredu cysylltiedig i fod ar waith erbyn mis Ebrill 2026. Bydd y gwaith yn dod i ben gyda'r cyfnod ofal er mwyn sefydlu Fframwaith Comisiynu newydd ar gyfer gofal lliniarol arbenigol erbyn mis Ebrill 2027.

Yn ddiweddar, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi cael y trydydd adroddiad a'r olaf sy'n ymwneud ag adolygu gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru. Mae'r adroddiad mewnol hwn yn cwblhau cais Llywodraeth Cymru am adolygiad cynhwysfawr wedi'i lywio gan ddata o gyllid, anghenion a chynllunio strategol ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Perfformiad a Gwella'r GIG i lunio gwaith tîm y rhaglen genedlaethol gofal lliniarol a gofal diwedd oes a fydd yn seiliedig ar argymhellion yr adroddiad.

***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar nifer yr hosbisau a gwelyau hosbis yng Nghymru ac a yw hyn wedi newid yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf.***

Mae 12 hosbis wedi'u comisiynu yng Nghymru, ac nid yw'r nifer hwn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2018, adroddodd Hospice UK fod 97 o welyau hosbis ar gyfer oedolion sy'n gleifion mewnol yng Nghymru.

Ers llunio'r adroddiad hwnnw, mae Hosbis Dewi Sant wedi cyhoeddi y bydd ei huned cleifion mewnol 4 gwely yng Nghaergybi yn cau dros dro o fis Hydref 2025 ymlaen.

Mae gwaith yn parhau rhwng Hosbis Dewi Sant a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i liniaru unrhyw effaith y cau dros dro.

***Pa fesurau sydd wedi'u cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau gwelliant o ran trosglwyddo cleifion ambiwlans o fewn ei tharged o 15 munud? Pa mor effeithiol fu'r mesurau hynny ac a oes data ar gael i ddangos y sefyllfa bresennol?***

Mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei gwneud yn glir i fyrddau iechyd am ei ddisgwyliadau o ran gwella prydlondeb trosglwyddo cleifion o ambiwlansys. Disgwylir i bob bwrdd iechyd gyflawni'r canllawiau ar drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, sydd wedi'u sefydlu fel un o'r pum blaenoriaeth ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn fframwaith cynllunio'r GIG ar gyfer 2025-26.

Er mwyn cyflymu'r gwelliannau hyn, rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi Tasglu Trosglwyddo-45 Cenedlaethol newydd er mwyn helpu byrddau iechyd a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd y gwaith hwn yn parhau gan ddod ag uwch arweinwyr clinigol ac arweinwyr gweithredol ar lefel bwrdd iechyd at ei gilydd i ganolbwyntio ar lwybrau effaith uchel, prosesau adrannau achosion brys, gwella llif cleifion ac annog perchnogaeth glinigol o gamau gweithredu.

Bydd y tasglu yn chwarae rhan allweddol wrth asesu a chynorthwyo parodrwydd GIG Cymru i drosglwyddo pob claf ambiwlans o fewn 15 munud, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, ond bob amser o fewn 45 munud.

Yn ystod y ddau fis diwethaf, rydym wedi gweld rhai arwyddion calonogol o welliant o ganlyniad i strategaethau a chamau gweithredu gwella lleol drwy'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Bydd dulliau gweithredu lleol yn cael eu rhannu â'r holl fyrddau iechyd, a bydd y tasglu hefyd yn manteisio ar ddiwylliannau, prosesau, a modelau llwyddiannus eraill o bob cwr o'r DU.

Ym mis Gorffennaf, roedd llai o oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys ym mhob ardal bwrdd iechyd o gymharu â mis Mehefin 2025 a mis Gorffennaf 2024. Gwelsom 59.7% o gleifion yn cael eu trosglwyddo o ofal criwiau ambiwlansys i ofal staff adrannau achosion brys mewn llai na 45 munud o gyrraedd yr ysbyty. Cynyddodd hyn 6.1% pwynt canran o fis Mehefin 2025. Fis diwethaf, gwelwyd y cyfanswm isaf ers mis Gorffennaf 2021 o 'oriau coll' yn sgil oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys.

***Byddai'r Pwyllgor yn croesawu crynodeb o'r ffigurau diweddaraf ar gyfraddau bwydo ar y fron, yn enwedig o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg, ac a oes unrhyw ddata'n cael eu casglu ar ôl i bobl adael yr ysbyty.***

Mae canran y plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n cael eu bwydo ar y fron pan fyddant yn 10 diwrnod oed wedi parhau i gynyddu ac mae bellach ar ei lefel uchaf a gofnodwyd. Fodd bynnag, mae'n is na'r cyfraddau sydd wedi'u cofnodi mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg.

Caiff y gymhariaeth o gyfraddau babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron pan fyddant yn 10 diwrnod oed rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg ei chyhoeddi'n flynyddol yn rhan o fwletin ystadegol Dechrau'n Deg.

Mae data sy'n ymwneud â chanran y babanod sy'n cael unrhyw laeth o'r fron pan fyddant yn 10 diwrnod oed (fesul Awdurdod Lleol rhwng 2014-23) hefyd ar gael ar wefan Stats Cymru.

Cesglir data ynghylch babanod sy’n cael eu bwydo ar y fron ar adeg y geni a hefyd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r ysbyty pan fyddant yn 10 diwrnod oed, yn 6 wythnos oed, ac yn 6 mis oed. Fel arfer, cesglir y data pan fydd babanod yn 10 diwrnod oed, yn 6 wythnos oed ac yn 6 mis oed gan ymwelwyr iechyd neu mewn clinigau, gan dybio bod y fam a’r babi wedi’u rhyddhau o’r ysbyty ar yr adegau hynny.

***Yng ngoleuni’r cyhoeddiad gan Trydan Gwyrdd Cymru i ddefnyddio polion pren yn hytrach na pheilonau ar gyfer cysylltedd grid, byddai’r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch a yw o’r farn y dylai datblygwyr eraill sy’n gwneud buddsoddiadau ystyried opsiynau ar wahân i beilonau.***

Yn ymarferol, bydd natur unrhyw gysylltiad trydan yn dibynnu ar faint o bŵer a drosglwyddir a cheir terfyn uchaf o ran lefel y pŵer y gellir ei drosglwyddo gan ddefnyddio polion pren.

Mater i’r datblygwr yw penderfynu ar y dewis o dechnolegau ar gyfer seilwaith rhwydwaith ynni, wrth hefyd ystyried polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Yn y polisi hwn, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei safbwynt a ffefrir o ran llinellau pŵer newydd. Mae’n nodi y dylid gosod llinellau pŵer o dan y ddaear lle bo hynny’n bosibl.

Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur yn ddoeth o ran y costau hynny a allai beri bod prosiect derbyniol yn cael ei nodi yn un ‘anhyfyw’.  Pan nad oes modd gosod llinellau o dan y ddaear, mae angen ymgysylltu’n rhagweithiol â chwmnïau ynni a’r cyhoedd er mwyn lliniaru effaith weledol unrhyw linellau trawsyrru newydd posibl.

Yng Nghymru, byddwn yn penderfynu a yw unrhyw gynnig penodol yn dderbyniol gan ystyried ei effaith a sut y mae cynigion yn cydymffurfio â’n polisïau a gofynion pobl yng Nghymru.

***Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi’i rhoi i annog teithio llesol i orsafoedd rheilffordd?***

Mae integreiddio cerdded, olwyno a beicio â thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau siwrneiau hwylus a diogel o ddrws i ddrws yn hanfodol er mwyn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio’r dulliau teithio hyn. Mae’r mater hwn yn flaenoriaeth i’r llywodraeth hon.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein Cynllun Cyflawni Teithio Llesol, sy’n cynnwys ymrwymiad i wella llwybrau teithio llesol i gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a gwella cyfleusterau yn y cyfnewidfeydd hynny.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn creu Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd ar gyfer ystod eang o orsafoedd ledled Cymru, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu rhaglen o lwybrau teithio llesol i orsafoedd rheilffordd. Mae’r rhaglen hon hefyd yn cynnwys gosod mannau newydd ar gyfer parcio beiciau a gwella mynediad i bobl sy’n cerdded ac yn olwyno.

Yn ogystal, rydym yn datblygu cynllun peilot newydd i osod ‘hangars’ beiciau diogel mewn sawl gorsaf reilffordd ledled Cymru.